



# Diweddariad Brexit Chwefror 2020

## Cefndir:

Cyflwynwyd Bil Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael) i'r Senedd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ar 21 Hydref 2019, yn rhoi manylion y trefniadau i'r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd.

Arweiniodd gwrthodiad y Senedd o amserlen ddechreuol y llywodraeth ar gyfer cymeradwyo'r Bil at ail estyniad i ddyddiad cau Brexit i 31 Ionawr 2020.

Aeth y Bil Cytundeb Ymadael drwy'r Senedd ar 22 Ionawr 2020 a derbyniodd ganiatâd brenhinol y trannoeth. Fe wnaeth y rhwystr olaf hwn alluogi'r Deyrnas Unedig i adael yr Undeb Ewropeaidd ar y dyddiad a drefnwyd ar gyfer yr ail estyniad.

Mae'r papur gwybodaeth dilynol yn amlinellu gwybodaeth allweddol fel rhan o [Ddeddf Undeb Ewropeaidd \(Cytundeb Ymadael\) 2020](#) yng nghyswllt y sector tai.



## Cyfnod pontio

Mae'r Cytundeb Ymadael a'i ddeddfwriaeth gysylltiedig yn trosi holl ddeddfwriaeth bresennol yr Undeb Ewropeaidd i gyfraith y Deyrnas Unedig, ac yn caniatáu ar gyfer cyfnod pontio tan 31 Rhagfyr 2020 sy'n sicrhau y bydd y Deyrnas Unedig yn mwynhau manteision aelodaeth yr Undeb Ewropeaidd tra'n negodi cytundeb masnach yn y dyfodol.

Ni ragwelir goblygiadau ymarferol i'r sector tai yn ystod y cyfnod hwn, ond gall negodiadau gyda'r Undeb Ewropeaidd achosi amgylchiadau cyfnewidiol dros y flwyddyn ac o bosibl gyflwyno heriau i'r sector tai yn dilyn pontio.

Gellir cytuno ar ymestyn y cyfnod pontio cyn mis Gorffennaf 2020 ond dim ond unwaith a dim ond am gyfnod o un i ddwy flynedd. Fodd bynnag, mae'r Prif Weinidog Boris Johnson wedi dweud nad yw'n cefnogi estyniad, ac ymddengys yn annhebyg y caiff y cyfnod pontio ei ymestyn gan y byddai angen mwy o ddeddfwriaeth sylfaenol ar gyfer y Cytundeb Ymadael i wneud hynny.

## Datganiad gwleidyddol

Mae'r [Datganiad Gwleidyddol](#) yn cyd-fynd â'r Cytundeb Ymadael ac yn nodi'r fframwaith ar gyfer perthynas y dyfodol rhwng yr Undeb Ewropeaidd a'r Deyrnas Unedig. Nid yw'n rhwymo'n gyfreithiol ond bydd yn gosod cyfeiriad negodiadau perthynas y dyfodol, y disgwylir y byddant yn dechrau unwaith mae'r Deyrnas Unedig wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd yn ffurfiol.

Mae'n sefydlu paramedrau partneriaeth ar draws amrywiaeth o ardaloedd, gyda Chytundeb Masnach Rydd yn greiddiol iddo.

Mae'r Datganiad hefyd yn dweud y dylai mesurau diogelu ar gae chwarae gwastad sicrhau perthynas sy'n seiliedig ar gystadleuaeth agored a theg yn y dyfodol.

## Gwelliannau

Cafodd pob un o'r pump gwelliant a gynigiwyd gan Dŷ'r Arglwyddi i'r Bil Cytundeb Ymadael eu gwrthod gan Aelodau Seneddol. Roedd hyn yn cynnwys: hawliau dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd, grym llysoedd y Deyrnas Unedig i wyro o gyfraith yr Undeb Ewropeaidd, annibyniaeth y farnwriaeth ar ôl Brexit a gwarantu hawliau ar gyfer plant ffoadur.



Roedd y pumed Gwelliant a wrthodwyd yn galw am gydsyniad ar ddeddfwriaeth materion a ddatganolwyd gan Senedd yr Alban, Cynulliad Cymru a Chynulliad Stormont yng Ngogledd Iwerddon.

Pleidleisiodd y tair Llywodraeth ddatganoledig yn erbyn y Bil, ond gan nad oedd yn bleidlais oedd yn rhwymo'n gyfreithiol, ni wnaeth hynny atal y Bil rhag dod i rym.

Mynegodd Mark Drakeford AC, Prif Weinidog Cymru, bryder y cafodd buddiannau Cymru eu hanwybyddu a bod y Bil yn tanseilio'r setliad datganoli.

## **Brexit Dim Cytundeb**

Ni chafodd posibilrwydd Brexit 'Dim Cytundeb' ei ddileu'n llwyr, ond arferai gyfeirio at y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd heb Gytundeb Ymadael ar waith.

Nawr y daeth Cytundeb Ymadael i rym, erbyn hyn mae sefyllfa Dim Cytundeb yn cyfeirio at beidio bod wedi cytuno ar fanylion perthynas fasnachu y Deyrnas Unedig a'r Ewropeaidd Unedig yn y dyfodol erbyn diwedd y cyfnod pontio. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi dechrau cyfeirio at y sefyllfa hon fel "cytundeb arddull Awstralia". Ni warrantwyd llwyddiant y negodiadau hyn oherwydd natur gymhleth y materion sydd i gael eu trafod.

Polisi Llywodraeth Cymru fu gwrthwynebu gadael yr Undeb Ewropeaidd heb gytundeb ac maent yn gyson wedi amlinellu'r effaith y gallai sefyllfa Dim Cytundeb ei gael ar yr economi a gwasanaethau cyhoeddus yn ehangach. Mae gwefan Llywodraeth Cymru "[Paratoi Cymru ar gyfer Brexit dim cytundeb](#)" yn amlinellu'r effaith ar draws nifer o sectorau.

Mae effaith Dim Cytundeb yn rhoi heriau ar draws nifer o feysydd o fusnes cymdeithasau tai ac mae'n debygol y caiff yr effaith ei deimlo ar draws amrywiaeth o ddiwydiannau yng Nghymru. Er ei bod yn annhebyg mai'r sector tai gaiff ei daro waethaf, mae Llywodraeth Cymru a chydweithwyr mewn llywodraeth leol yn awyddus i weithio gyda'r sector i ddeall yr effaith a sut y gallem liniaru heriau sy'n codi.

Mae dogfen '[Operation Yellowhammer](#)' Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn amlinellu'r hyn mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ei ragweld fel sefyllfaoedd achos-gwaethaf pe digwyddai Brexit Dim Cytundeb.



Yn ddilynol, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei gynllun gweithredu Dim Cytundeb ei hun, yn cyflwyno'r camau gweithredu i drin y prif risgiau ar gyfer Cymru, ac yn ymateb i'r tybiaethau a nodir yn Operation Yellowhammer. Mae manylion y cynllun gweithredu ar gael [yma](#).

## **Hawliau dinasyddion**

Dan y Cytundeb, gall dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir ac aelodau eu teuluoedd sy'n byw yn y Deyrnas Unedig wneud cais i Gynllun Preswyllo Sefydlog yr Undeb Ewropeaidd tan 31 Rhagfyr 2020 (pe byddai Brexit Dim Cytundeb) neu erbyn 30 Mehefin 2021 (os oes cytundeb Brexit).

Mae'r rhai sydd wedi byw yn y Deyrnas Unedig am bum mlynedd neu fwy yn gymwys am 'ganiatâd amhenodol i aros' gan barhau i fyw a gweithio yn y Deyrnas Unedig. Bydd y rhai sydd wedi byw yn y Deyrnas Unedig am lai na phum mlynedd yn gymwys am 'ganiatâd cyfyngedig i aros' a gallant wneud cais am 'ganiatâd amhenodol i aros' unwaith y cwblhawyd pum mlynedd o breswyllo parhaus yn y Deyrnas Unedig.

Dan delerau'r Cytundeb Ymadael, byddai hawliau dinasyddion yn parhau i gael eu gwarchod dan gyfraith bresennol yr Undeb Ewropeaidd ar symud rhydd hyd yn oed os na cheir cytundeb erbyn diwedd mis Rhagfyr.

Mae'r Swyddfa Gartref wedi llunio pecyn cymorth ar gyfer cyflogwyr am Gynllun Preswyllo Sefydlog yr Undeb Ewropeaidd sydd ar gael [yma](#). Mae hefyd becyn cymorth tebyg ar gyfer arweinwyr cymunedol a all fod yn ddefnyddiol wrth gynghori tenantiaid. Mae hyn ar gael [yma](#).

Mae'n bwysig iawn fod tenantiaid a gweithwyr cyflogedig o wledydd yr Undeb Ewropeaidd yn gwirio eu statws presennol yng nghyswllt cynllun preswyllo sefydlog yr Undeb Ewropeaidd cyn gynted ag sy'n bosibl.

I godi ymwybyddiaeth o'r Cynllun Preswyllo Sefydlog, darparwyd cyllid i gydlynnydd yng Nghymru yn ogystal â gwasanaeth cyfraith mewnfudo i roi cyngor cyfreithiol Llywodraeth Cymru mewn achosion cymhleth. Ymhellach, dyfarnwyd cyllid i Cyngor Ar Bopeth yn ddiweddar i ddarparu cyngor arbenigol a chyffredinol ym maes ceisiadau Statws Preswyllo Sefydlog ac maent yn awyddus i weithio gyda chymdeithasau tai i gyrraedd y rhai sydd angen cymorth. Mae wybodaeth ar hyn ar gael [yma](#).



## Llafur a gweithlu

Yn ystod y cyfnod pontio, mae dinasyddion aelod wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd yn dal i fod yn gymwys i symud i'r Deyrnas Unedig i fyw a gweithio ond mae angen iddynt wneud cais am statws mewnfudo i'r Deyrnas Unedig yn rhoi caniatâd iddynt aros.

Unwaith y bydd y cyfnod pontio yn dechrau (o 1 Chwefror 2020), bydd y Swyddfa Gartref yn agor cynllun mewnfudo gwirfoddol newydd - Cynllun Caniatâd i Aros Dros Dro Ewropeaidd (Euro TLR) - i roi gwasanaeth ar-lein i wneud cais am y statws mewnfudo hwn.

Caiff ymgeiswyr llwyddiannus i gynllun Euro TLR gyfnod caniatâd o dair blynedd i aros yn y Deyrnas Unedig, yn rhedeg o'r dyddiad y rhoddir y caniatâd. Bwriedir i hyn roi mwy o hyder a sicrwydd i ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd sy'n symud i'r Deyrnas Unedig yn ystod y cyfnod pontio a'u cyflogwyr a sicrhau fod ganddynt sicrwydd statws cyfreithiol yn y Deyrnas Unedig cyn y cyflwynir y system mewnfudo newydd o fis Ionawr 2021. Caiff y system newydd ei modelu ar system mewnfudo seiliedig ar bwyntiau debyg i system Awstralia ac mae'n anelu rhoi blaenoriaeth i setiau sgiliau.

Fodd bynnag, gall ansicrwydd yn y dyfodol am y broses gais olygu fod preswylwyr yn dewis peidio aros yn y Deyrnas Unedig a bu peth tystiolaeth anecdotaidd fod rhai mewn swyddi cyflog isel eisoes wedi dychwelyd i wledydd eraill yr Undeb Ewropeaidd. Ymhellach, nid yw'r Cytundeb Ymadael bellach yn cynnwys cymalau ar warchod hawliau gweithwyr yr Undeb Ewropeaidd ac yn lle yn bwriadu eu cynnwys mewn Bil Cyflogaeth arfaethedig. Nid yw'n glir hyd yma sut mae'r Llywodraeth yn bwriadu gwarchod hawliau gweithwyr yn y Bil arfaethedig, sy'n cynyddu pryderon ymhellach ymysg gweithwyr yr Undeb Ewropeaidd.

O fewn Cymru mae gan fewnfudwyr o'r Undeb Ewropeaidd gyfradd cyflogaeth cyffredinol uwch (79%) na'r boblogaeth oedran gwaith gyffredinol (71%) ac mae'r rhan fwyaf yn gweithio mewn swyddi tebyg i weinyddiaeth, gofal cymdeithasol neu grefftau medrus (e.e. mewn adeiladu) sy'n golygu ei bod yn debygol y bydd sefyllfa Dim Cytundeb yn effeithio ar staff cymdeithasau tai. Mae gostyngiad mewn mewnfudo i'r wlad yn debygol o effeithio ar y gweithlu mewn dau faes allweddol ar gyfer cymdeithasau tai.

- **Adeiladu:**

Mae gan y gweithlu adeiladu yng Nghymru nifer sylweddol o swyddi gwag neu anodd eu llenwi ar hyn o bryd, sy'n ganlyniad prinder sgiliau a gweithlu sy'n



heneiddio. Mae'n debyg y caiff y bylchau yn y gweithle eu gwaethygu gan effaith Brexit Dim Cytundeb, gyda 2% o'r gweithlu â dinasyddiaeth yr Undeb Ewropeaidd.

Fodd bynnag, mae'n werth nodi fod gan Gymru gyfran cyffredinol is o weithwyr adeiladu o'r Undeb Ewropeaidd na rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, sydd oherwydd natur nodweddiadol symudol gweithwyr adeiladu sy'n golygu fod risg sylweddol o golli cyfrannau sylweddol o'r gweithlu i swyddi sy'n talu'n well yn Ne Ddwyrain Lloegr fel a welwyd mewn dirywiadau economaidd blaenorol. Ymhellach i hyn, mae oedi a gwrthod nifer o brosiectau seilwaith mawr yng Nghymru, yn cynnwys Wylfa Newydd, Morlyn Bae Abertawe a ffordd liniaru'r M4 wedi achosi ansicrwydd sylweddol yn y gwaith sydd ar gael yn y sector hwn.

- **Gofal Cymdeithasol a Gweithwyr Cymorth:**

Ym mis Mawrth 2019 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymchwil ar oblygiadau Brexit ar y gweithlu gofal cymdeithasol a gofal plant. Amcangyfrifir fod 6.4% (uchafswm o 3,730) o staff o fewn gosodiadau gofal cymdeithasol cofrestredig a 4.5% (uchafswm o 1,100) o staff o fewn gwasanaethau gofal plant cofrestredig yng Nghymru yn ddinasyddion o'r Undeb Ewropeaidd tu allan i'r Deyrnas Unedig.

Er ei bod yn debyg fod hyn ar lefel is na rhai rhannau o'r Deyrnas Unedig, oherwydd lefelau cyffredinol is mewnfudo o'r Undeb Ewropeaidd i Gymru, mae'r sectorau hyn eisoes yn wynebu heriau recriwtio a sgiliau sylweddol a gaiff eu gwaethygu gan unrhyw gyfyngiadau ar mewnfudo. Mae'r ymchwil yn dangos fod 58% o ymatebwyr gofal cymdeithasol cofrestredig a 47% o ymatebwyr gofal plant wedi sôn am anawsterau mewn recriwtio o fewn y flwyddyn ddiwethaf.

Ar hyn o bryd mae tua 43,000 o weithwyr o'r Undeb Ewropeaidd yng Nghymru, sy'n llai na 2% o'r tua 2.3m yn y Deyrnas Unedig i gyd. Fodd bynnag, yn yr un modd â'r diwydiant adeiladu, mae dibyniaeth ar weithwyr sydd wedi mewnfudo o'r Undeb Ewropeaidd yn debygol o fod ar lefel is yng Nghymru nag mewn rhai rhannau o Loegr oherwydd lefelau cyffredinol is o mewnfudo o'r Undeb Ewropeaidd i Gymru sy'n golygu fod llawer o'r un problemau yn wir ar gyfer gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol.

Nid yw Cymru yn or-ddibynnol ar weithwyr o'r Undeb Ewropeaidd i gynnal gwasanaethau gofal a chymorth ond mae pryder y gall gweithwyr o Brydain a hefyd yr Undeb Ewropeaidd sy'n gweithio yng Nghymru ar hyn o bryd gael eu denu i fannau eraill gan gyflogau gwell a rhagolygon eraill a all fod ar gael yng ngweddill y Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, yn ôl Confederasiwn y GIG nid



oes unrhyw dystiolaeth ar hyn o bryd fod dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd a gyflogir gan GIG Cymru yn gadael y gweithlu oherwydd Brexit.

Ar gyfer sector sydd eisoes yn ariannol fregus, mae sefyllfa achos gwaethaf Brexit dim cytundeb yn awgrymu y bydd unrhyw gynnydd mewn chwyddiant yn cynyddu costau staff a chyflenwi i ofal cymdeithasol oedolion. Gall hyn arwain at fethiant darparwr o unrhyw beth rhwng 2 a 6 mis, oherwydd cynnydd mewn costau staffio a chyflenwi.

Gallai hyn olygu y bydd cymdeithasau tai yn ei chael yn anodd cynnal y lefelau staffio sy'n eu galluogi i ddarparu'r gwasanaethau ychwanegol, megis gofal, sydd mor hanfodol i denantiaid, yn arbennig yr henoed neu'r bregus.

Mae Cronfa Pontio Undeb Ewropeaidd Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyllid i brosiectau i gefnogi iechyd a gofal yng Nghymru, yn cynnwys ymchwil i'r gweithlu gofal cymdeithasol. Mae mwy o wybodaeth ar sut y gellir effeithio ar yr iechyd a gofal cymdeithasol yn ystod y cyfnod pontio ar gael [yma](#).

## **Masnach**

Mae darpariaeth yn y Cytundeb Ymadael y bydd nwyddau a gaiff eu rhoi'n gyfreithiol ar y farchnad yn y Deyrnas Unedig neu'r Undeb Ewropeaidd cyn diwedd y cyfnod pontio yn parhau i gylchredeg yn rhydd rhwng y ddwy farchnad yma, nes y byddant yn cyrraedd eu defnyddwyr.

Mae hyn yn golygu y bydd nwyddau sy'n dal i fod yn y gadwyn ddosbarthu ar gyfnod y cyfnod pontio yn medru cyrraedd eu defnyddwyr yn yr Undeb Ewropeaidd neu'r Deyrnas Unedig heb orfod cydymffurfio gydag unrhyw ofynion cynnyrch ychwanegol.

Pe na fyddai cytundeb, y sefyllfa awtomatig yw y byddai masnach gyda'r Undeb Ewropeaidd yn dychwelyd i drefniant Sefydliad Masnach y Byd (WTO), gan olygu y byddai tariffau a chostau ar unwaith wrth fewnforio nwyddau o'r Undeb Ewropeaidd i'r Deyrnas Unedig yn hytrach na'r fasnach rydd sydd ar hyn o bryd.

Fodd bynnag, mae adroddiadau diweddar wedi awgrymu fod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ystyried torri ei thariffau i sero pe byddai Brexit heb gytundeb. Dan reolau'r WTO, byddai hyn yn golygu y byddai tariff sero ar bob masnach (nid dim ond gyda gwledydd yr Undeb Ewropeaidd), ac mae pryderon y byddai hyn yn achosi difrod sylweddol i farchnadoedd y Deyrnas Unedig.





Mae Yellowhammer yn rhoi manylion mesurau rheoli gorfodol yr Undeb Ewropeaidd a orfodir gan Ffrainc ar nwyddau o'r Deyrnas Unedig ar Ddiwrnod 1 Dim Cytundeb (D1ND) ar draws llwybr y Sianel. Gallai cyfradd llif cerbydau HGV ostwng i 40-60% o'r lefelau presennol oherwydd diffyg parodrwydd masnachwyr ac anallu porthladdoedd Ffrainc i 'ddal' nwyddau ym mhorthladdoedd Ffrainc. Disgwylid gwelliant i 50-70% ar ôl 3 mis. Sefyllfa achos gwaethaf yw 1.5 - 2.5 diwrnod o oedi i gerbydau HGV wrth groesi i dir mawr Ewrop.

- **Adeiladu:**

Mae'r diwydiant adeiladu yng Nghymru wedi dibynnu ers amser maith ar fewnforion o'r Undeb Ewropeaidd, yn neilltuol frics o Wlad Belg a Denmarc, pren o Sweden ac Estonia, gwydr o'r Eidal a deunyddiau ar gyfer tai preffab o'r Almaen a'r Iseldiroedd. O'r mewnforion adeiladu ym Mhrydain, daw 59% o'r tu mewn i'r Undeb Ewropeaidd, felly mae unrhyw newidiadau mewn perthynas fasnach yn debyg o ddod â heriau sylweddol i'r cadwyni cyflenwi. Rydym eisoes dod i wybod bod cwmnïau adeiladu unigol yn codi cost deunyddiau.

## **Y farchnad tai**

Mae'n anodd dweud i ba raddau y mae Brexit wedi dylanwadu ar weithgaredd prisiau tai. Wrth ddweud hyn, wrth i ddyddiad ymestyn cyntaf Brexit agosáu, arafodd cyfradd twf yng Nghymru i 2.6% ym Medi 2019 (o gymharu â 3.98% ym Mehefin 2019).

Mae tybiaethau Banc Lloegr am anrhefn Brexit heb gytundeb yn cynnwys gostyngiad o 35% mewn prisiau tai dros gyfnod o dair blynedd.

Mae peth tystiolaeth i awgrymu pe byddai prisiau tai yn gostwng gan draean neu fwy, y byddai angen cyfradd grant o 50% o leiaf o gostau adeiladu i sicrhau hyfywedd. Tra bod cyfraddau grant presennol tai rhent cymdeithasol yng Nghymru yn 58%, mae trafodaethau am system mwy hyblyg i gyfrif lefelau cyllid grant yn parhau yn dilyn yr Adolygiad annibynnol o Dai Fforddiadwy. Byddai nifer o ffactorau eraill, yn cynnwys costau ac argaeledd cyllid, hefyd yn effeithio ar hyfywedd ac uchelgais datblygiadau a bydd angen monitro parhaus pe byddai dirywiad economaidd. Ymhellach, dylai argaeledd cyffredinol grant ac unrhyw bwysau dilynol ar gyllid cyhoeddus fel canlyniad i ddirywiad economaidd fod yn amlwg yn ystyriaeth byrddau cymdeithasau tai ar ddatblygiad.





Mae cymdeithasau tai Lloegr wedi adrodd cynnydd yn y nifer o ddatblygwyr preifat sy'n gwerthu anheddau iddynt ar ddisgownt fel canlyniad i ddirywiad yn y farchnad, gyda rhai'n sôn am ostyngiad o hyd at 15%, a soniodd *Sovereign Housing Group* am hyd at wyth cytundeb o'r math hwn. Daw hyn wrth ochr adroddiadau fod *L&Q*, cymdeithas tai fwyaf Llundain, wedi gostwng ei amcanestyniadau gwarged gan fwy na 50% (£70m) fel canlyniad i ddirywiad yn y farchnad a chynnydd mewn costau.

Er bod cymdeithasau tai yng Nghymru â sylweddol llai o brofiad o werthiannau llwyr, mae nifer o gymdeithasau yn cyflwyno amrywiaeth o opsiynau perchnogaeth cartref y byddai unrhyw newidiadau i'r farchnad yn effeithio arnynt. Mae amodau ehangach y farchnad hefyd yn debygol o effeithio ar hyder contractwyr a benthycwyr i fuddsoddi mewn cartrefi.

### **Cyllid ar gyfer Cymdeithasau Tai**

Mae lefel dyledion presennol cymdeithasau tai Cymru yn £2.9bn, gyda pherthynas gynhyrchiol yn parhau rhwng cymdeithasau tai a nifer o fenthycwyr, yn cynnwys banciau a buddsoddwyr sefydliadol.

Fodd bynnag, mae un o'r prif asiantaethau graddio credyd - *S&P* - wedi dweud y byddai graddiad y rhan fwyaf o gymdeithasau yn gostwng gan un safle yn dilyn Brexit gyda'r rhai sy'n fwy dibynnol ar incwm o werthiannau marchnad yn debygol o gael eu diraddio gan un safle pellach. Er nad yw'r rhan fwyaf o gymdeithasau tai Cymru wedi gofyn am raddiad gan asiantaethau graddio allanol oherwydd eu maint, mae hyn yn dangos y consyrn sydd yn y sector ariannol am effaith Brexit ar yr amgylchedd cyllid.

Mae cynlluniau Banc Lloegr ar gyfer sefyllfa Dim Cytundeb am *Brexit Tarfu* a *Brexit Anhrefnus* yn rhagweld y bydd chwyddiant yn cyrraedd 6.25% a chyfraddau llog y sector (gyda gorsymiau banc uwch) yn cyrraedd 9% ynghyd â gostyngiad o hyd at 35% mewn prisiau tai.

Mae sefyllfaoedd o'r fath yn debygol o weld pwyslais cynyddol gan y rheoleiddiwr am yr angen am brofion straeon a chynlluniau wrth gefn.

Ymhellach i hyn, ar hyn o bryd mae gan gymdeithasau tai Cymru fynediad i nifer o gronfeydd presennol a ddarperir gan yr Undeb Ewropeaidd:

- **Banc Buddsoddi Ewrop:**

Yn y degawd cyn y refferendwm, roedd Banc Buddsoddi Ewrop (EIB) wedi chwistrellu dros £1bn i Gymru ar draws amrywiaeth o sectorau yn cynnwys tai



cymdeithasol. Mae benthyciadau gan yr EIB yn cynnig cyfraddau llog sylweddol is na llawer o fanciau masnachol, gan olygu fod gan gymdeithasau tai yn y pen draw fwy o gyllid ar gael i'w buddsoddi mewn adeiladu a darparu gwasanaethau. Fodd bynnag, yn dilyn negodiadau helaeth, methodd negodiad i sicrhau cyllid sylweddol ar gyfer cymdeithasau tai Cymru yn 2017 yn dilyn sbarduno Erthygl 50.

O ddechrau'r cyfnod pontio, ni fydd y Deyrnas Unedig yn gymwys am fwy o gyllid EIB, gan fod hyn yn hawl a gedwir gan fwyaf ar gyfer aelod wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd. Fodd bynnag, caiff unrhyw gyllid prosiect yr Undeb Ewropeaidd a ddyrannwyd i gymdeithasau tai dan y Fframwaith Ariannol Amlflynnyddol (2014-2020) presennol ei gyllido fel y rhagwelwyd. Mae hyn yn rhoi sicrwydd i holl fuddiolwyr rhaglenni'r Undeb Ewropeaidd, yn cynnwys cymdeithasau tai, fydd yn parhau i fanteisio o raglenni'r Undeb Ewropeaidd nes byddant yn cau.

Ar ddiwedd y cyfnod pontio pe byddai Dim Cytundeb, canfu is-bwyllgor o'r Tŷ Cyffredin ar Faterion Ariannol yr Undeb Ewropeaidd y bydd unrhyw freintiau ac imiwnedd presennol sy'n weithredol i fenthycia EIB yn parhau i fod mewn grym i fenthyciadau a wnaed cyn diwedd unrhyw gyfnod pontio ac y dylai contractau prosiect presennol gael eu gwarchod ac nad oes angen i sefydliadau gymryd unrhyw gamau gweithredu.

- **Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd:**

Yng nghylch Cyllid Strwythurol Ewrop 2014-20, roedd Cymru yn gymwys i dderbyn tua £2.1bn. Pan fydd y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd, ni fydd mwyach yn gymwys am fwy o gyllid. Bu sicrwydd y caiff contractau presennol eu hanrhydeddu ac mae Trysorlys y Deyrnas Unedig wedi rhoi gwarant ar gyfer prosiectau a gymeradwywyd cyn diwedd y cyfnod pontio.

Yn ystod yr ymgyrch ar gyfer Etholiad Cyffredinol mis Rhagfyr 2019, dywedodd y Blaid Geidwadol y bydd y Llywodraeth yn sefydlu Cronfa Rhannu Ffyniant y Deyrnas Unedig i sicrhau nad yw pobl y Deyrnas Unedig ar eu colled ar ôl i gyllid yr Undeb Ewropeaidd ddod i ben.

Cynhaliwyd [dadl](#) ar 5 Chwefror 2020 ar gynigion Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer amnewid y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd a weinyddir gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd. Yn y ddadl ailategwyd ymrwymiad ym maniffesto'r Ceidwadwyr yn 2019 i gyfateb y dyraniad cyfredol o gronfeydd strwythurol ym mhob un o'r pedair cenedl. Dywedwyd hefyd y bydd y Trysorlys yn cymryd y penderfyniadau terfynol ar ddyraniad cyffredinol Cronfa Rhannu Ffyniant y Deyrnas Unedig yn ystod adolygiad gwariant traws-



lywodraeth, gyda'r amserlen i'w chyhoeddi gan y Canghellor yn araith y Gyllideb ar 11 Mawrth 2020.

- **Cymorth Gwladol:**

Mae Cymorth Gwladol yn fantais a roddir gan awdurdodau cyhoeddus i sefydliadau sydd â'r potensial i wyro cystadleuaeth a masnach o fewn yr Undeb Ewropeaidd. Gellir gweithredu'r rheolau i unrhyw un sy'n ymwneud â gweithgareddau masnachol, yn cynnwys sefydliadau dim-er-elw (yn cynnwys cymdeithasau tai) ac sy'n gweithio i annog twf.

Mae datganiad gan y Comisiwn Ewropeaidd yn esbonio "Yng nghyswllt cymorth a roddwyd cyn diwedd y cyfnod pontio, am gyfnod o bedair blynedd ar ôl diwedd y cyfnod pontio, bydd y Comisiwn Ewropeaidd yn gymwys i ddechrau gweithdrefnau gweinyddol newydd ar Gymorth Gwladol yng nghyswllt y Deyrnas Unedig. Bydd y Comisiwn yn gymwys ar ôl diwedd y cyfnod pedair blynedd hwnnw am weithdrefnau a ddechreuwyd cyn diwedd y cyfnod hwnnw."

### **Mwy o wybodaeth**

Bu tai yn flaenoriaeth allweddol yn Nrafft Gyllideb 2020/21 Llywodraeth Cymru gyda chynnydd o £133m mewn gwariant o'r cylch gwariant blaenorol. Mae dyraniadau yn cynnwys:

- £48m Grant Tai Cymdeithasol
- £50m Benthyciadau Tai (ar gyfer datblygiadau newydd ac i ddechrau datgarboneiddio cartrefi)
- £5m Cyllid Rhyddhau Tir
- £10m Adfywio Canol Trefi
- £10m Adeiladu Modiwlwr

Mae mwy o fanylion ar gael [yma](#).

### **Cyllid ar gyfer Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y bydd yn darparu £1.2m miliwn o gyllid i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) i barhau â'u rhaglenni Brexit. Mae hyn yn golygu y bydd hyd at £45,000 ar gael bob awdurdod lleol yng Nghymru, yn ogystal â £200,000 ychwanegol gan WLGA. Mae'r arian hwn yn sicrhau y gall pob awdurdod lleol wneud y gwaith paratoi ar gyfer Brexit, yn cynnwys cynllunio ar gyfer sefyllfa Dim Cytundeb.



Yn ogystal â'r cyllid cyn Brexit yma, ar 4 Mawrth cyhoeddodd James Brokenshire AS, Ysgrifennydd Gwladol Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, y clustnodir £1.6bn ar gyfer "Cronfa Trefi Cryfach" i greu swyddi newydd, helpu i hyfforddi pobl leol a hybu twf yn nhrefi Lloegr ar ôl i'r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd. Mae wedi cadarnhau ers hynny y bydd cyllid canlyniadol Barnett ar gyfer yr arian hwn, ond ni chafwyd cadarnhad hyd yma am yr amserlenni neu'r swm y bydd Llywodraeth Cymru yn ei dderbyn.

Bwriedir i gyllid y Deyrnas Unedig helpu datblygu'r trefi y mae Dim Cytundeb yn effeithio mwyaf arnynt, yn ogystal â gweithio i liniaru peth o effaith gostyngiad mewn cyllid Undeb Ewropeaidd yn y meysydd hyn. Wrth ochr hyn, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig hefyd yn cynllunio darparu Cronfa Rhannu Ffyniant y Deyrnas Unedig, gydag addewidion wedi'i gwneud cyn y refferendwm na fyddai Cymru yn derbyn swm is o gyllid pe pleidleisid i adael.

### **Trosglwyddo data**

Mae'r Cytundeb Ymadael yn gwarchod rheolau diogelu data yr Undeb Ewropeaidd ar ôl diwedd y cyfnod pontio, nes y gall y Deyrnas Unedig ddarparu system diogelu data bersonol sydd o'i hanfod yn debyg i'r rhai yn y Deyrnas Unedig.

Ar ôl i'r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd, byddai trosglwyddo data gwybodaeth (e.e. gwybodaeth am weithwyr cyflogedig) yn cael ei farnu fel trosglwyddiad 'cyfyngedig' mewn unrhyw achos lle mae:

- Fersiwn y Deyrnas Unedig o'r GDPR yn weithredol ar gyfer prosesu'r data personol yr ydych yn ei drosglwyddo
- Nid yw GDPR y Deyrnas Unedig yn weithredol i fewnforiwr y data, fel arfer oherwydd eu bod mewn gwlad y tu allan i'r Deyrnas Unedig (a all fod yn yr Undeb Ewropeaidd, Ardal Economaidd Ewrop neu fan arall)
- Danfonwr y data personol a derbynnydd y data yn sefydliadau ar wahân (hyd yn oed os yw'r ddau yn gwmnïau o fewn yr un grŵp).

Gellir gwneud trosglwyddiadau cyfyngedig pan mae system diogelu data ddigonol yn ei lle. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn bwriadu cydnabod penderfyniadau digonolrwydd yr Undeb Ewropeaidd a wnaed gan y Comisiwn Ewropeaidd cyn y dyddiad gadael. Bydd hyn yn caniatáu parhau i wneud trosglwyddiadau cyfyngedig i'r rhan fwyaf o sefydliadau, gwledydd, tiriogaethau neu sectorau a ddaw o fewn penderfyniad digonolrwydd yr Undeb Ewropeaidd.



Os nad oes penderfyniad digonolrwydd ar gyfer trosglwyddiad cyfyngedig, efallai y gall y trosglwyddiad ddigwydd gyda 'mesurau diogelu priodol', a gaiff eu rhestru yn y GDPR.

## **Cyflenwadau bwyd**

Ni ragwelir y bydd unrhyw effeithiau ar gyflenwadau bwyd yn ystod y cyfnod pontio, gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r llywodraethau datganoledig yn annog pobl i beidio crynhoi nwyddau yn ddiangen.

Oherwydd nifer cymhleth o sicrhau cytundeb masnach rydd gyda'r Undeb Ewropeaidd, mae ansicwydd mawr am sut olwg fedrai fod ar gytundeb masnach gyda marchnadoedd eraill ac os bydd hyn yn gwrthweithio'r effeithiau i gyflenwadau bwyd mewn sefyllfa Dim Cytundeb.

Bu nifer fawr o rybuddion am gyflenwadau bwyd yng nghyswllt Brexit Heb Gytundeb gydag unrhyw ohirio ar lwybrau masnach allweddol yn debygol o effeithio ar fewnforio bwyd o'r Undeb Ewropeaidd ac ymhellach i ffwrdd. Ymhellach, mae unrhyw dariffau ychwanegol yn debygol o gynyddu pris cyflenwadau bwyd ar gyfer cwsmeriaid masnachol a hefyd ddefnyddwyr bob dydd.

Mae dogfen Yellowhammer yn nodi ei bod yn debygol y bydd gostyngiad mewn cyflenwadau bwyd ffres, ond na fydd hyn yn achosi prinder bwyd yn y Deyrnas Unedig. Fel canlyniad i hyn, bydd costau'n cynyddu ar gynnyrch y mae prinder ohonynt a chael yr effaith fwyaf negyddol ar y rhai ar incwm is.

Yn dibynnu ar y negodiadau dros y flwyddyn, bydd angen i'r cynlluniau gweithredu gan asiantaethau lleol sy'n cefnogi tenantiaid a chleientiaid (tebyg i fanciau bwyd) gael eu monitro a'u hadolygu'n rheolaidd.

## **Cyflenwadau meddygol**

Yn yr un modd â chyflenwadau bwyd, cafodd pobl eu hannog i beidio crynhoi meddyginiaethau eu hunain.

Gyda 75% o feddyginiaethau'n dod i'r Deyrnas Unedig ar draws y Sianel, gallai fod hyd at chwe mis o ymyriad i gyflenwadau mewn sefyllfa Dim Cytundeb, gyda chyfradd llif HGV cyn ised â 40%. Fodd bynnag yn yr achos hwn, ni fydd diwydiannau yn gallu cyfateb lefel y crynhoi a ddigwyddodd yn gynharach eleni. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cymryd camau i gynyddu gwytnwch yn y GIG a gwasanaethau gofal cymdeithasol yng



Nghymru drwy gaffael capasiti storio ychwanegol gyda chyflenwad 12 i 15 wythnos o gynnyrch.

### **Cydlyniaeth gymunedol**

Er bod cyfnod pontio wedi dilyn, gall y ffaith fod y Deyrnas Unedig wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd ymestyn neu waethygu tensiynau sy'n bodoli eisoes mewn cymunedau.

I wella cydlyniaeth gymunedol, mae Cronfa Bontio'r UE Llywodraeth Cymru wedi helpu i ehangu rhaglen ranbarthol cydlyniaeth cymunedau a'r rhwydwaith o gydlynwyr i'w helpu i ddynodi problemau posibl a thensiynau sy'n codi.

Dylai cymdeithasau tai ystyried cael mynediad i neu atgynhyrchu rhaglenni o'r fath os oes cynnydd yn y galw am wasanaethau.

Mae mwy o wybodaeth am sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag eraill i liniaru tensiynau cymunedol ar gael [yma](#).